**CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.**

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 4ydd o Chwefror 2020 yn Yr Hen Ysgol

Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Arwel Evans

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Llinos Davies, Lon Davies, Sarah-Jane Absalom, Robin Phillips, Ieuan Davies

Cynghorydd Sir: Cyng. Cris Tomos

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:-

Cyfarfod - 07/01/2020

Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ceirwyn John fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

91. Golau Pontcynnon. Helen wedi cael cadarnhau bod y Cyngor Sir ddim yn mynd I adnewyddu y golau tu allan I'r Capel.

Gohebiaeth

92. Cyfanwsm yn y banc 25.01.20 - £3,937.06

93. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Carnhuan, Eglwyswrw. Cyn trafod fe wnaeth y Cyng. Enid Cole datgan diddordeb yn y mater. Cais ar gyfer adeilad newydd ar gyfer lles staff, storio ac I ymwelwyr.

94. Cinio Blynyddol – Ar ol trafod Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ieuan Davies y Salutation Inn ar y 13eg o Fai. Helen I gysylltu a Brenda I drefnu.

Unrhyw Fater Arall

95. Ebost wrth Wil a Eileen Thomas Llysybryn, Eglwyswrw ynglyn a sefyllfa y rhewl a'r dwr sydd yn dal ger y ffordd yn ystod tywydd gwlyb. Cyng Cris Tomos yn mynd I gysylltu gyda Will a Eileen er mwyn cael mwy o wybodaeth ac edrych ar y sefyllfa.

96. Llythyr wrth Paul Sartori yn gofyn am gais ariannol – Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Sarah-Jane Absalom cyfraniad o £100.00.

97. Cododd Enid Cole ynglyn a ffordd Swan ar cyffordd allan I rhewl Pontyglasier. Teithwyr ddim yn gallu gweld yn glir I ddod allan o'r gyffordd. Cyng Cris Tomos yn mynd I edrych ar y sefyllfa.

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 3ydd o Fawrth am 8.00y.h.**

**Terfynwyd y Cyfarfod am 8.20 y.h.**